Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**15 Ebrill 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Mae'r datganiad ysgrifenedig hwn wedi cael ei ail-osod gan fod fersiwn wreiddiol y Rheoliadau drafft y mae'r datganiad yn cyfeirio ati wedi'i thynnu'n ôl ar 8 Ebrill. Gosodwyd Rheoliadau diwygiedig ar yr un dyddiad. Mae'r diwygiadau i'r Offeryn Statudol (OS) yn fân ddiwygiadau technegol nad ydynt yn newid diben nac effaith y Rheoliadau.

Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CEE) Rhif 315/93 yn gosod gweithdrefnau ar gyfer halogion mewn bwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, gan sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a gosod gweithdrefnau mewn materion o ddiogelwch bwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig*
- Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid*
- Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu a fwriedir i'w defnyddio mewn bwyd neu ar fwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid deunyddiau bwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 854/2004 yn gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd i'w bwyta gan bobl
- Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid*
- Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 yn gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid*
- Rheoliad (CE) Rhif 378/2005 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 o ran dyletswyddau a thasgau'r Labordy Cyfeirio Cymunedol sy'n ymwneud â cheisiadau am awdurdodiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid*
- Rheoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar feini prawf microbiolegol ar gyfer bwyd

- Rheoliad (CE) Rhif 2074/2005 yn gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (CE) Rhif 854/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 882/2004, yn rhanddirymu o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 a diwygio Rheoliadau (CE) Rhif 853/2004 a (CE) Rhif 854/2004
- Rheoliad (CE) Rhif 282/2008 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig wedi'u hailgylchu y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006*
- Rheoliad (CE) Rhif 733/2008 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnforio cynhyrchion amaethyddol sy'n deillio o drydydd gwledydd yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Chernobyl*
- Rheoliad (CE) Rhif 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 1332/2008 ar ensymau bwyd a diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 83/417/EEC, Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1493/1999, Cyfarwyddeb 2000/13/EC, Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC a Rheoliad (CE) Rhif 258/97*
- Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol gyda nodweddion rhoi blas (*flavouring*) i'w defnyddio mewn bwyd ac ar fwyd*
- Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 ar osod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio*
- Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd*
- Rheoliad (UE) 2015/1375 yn gosod rheolau penodol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar gyfer *Trichinella* mewn cig
- Rheoliad (UE) 2015/2283 ar fwydydd newydd, gan ddiwygio Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 a diddymu Rheoliad (CE) Rhif 258/97 a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1852/2001*
- Rheoliad (Euratom) 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol, a diddymu Rheoliad (Euratom) Rhif 3954/87 a Rheoliadau'r Comisiwn (Euratom) Rhif 944/89 ac (Euratom) Rhif 770/90*
- Rheoliad (UE) 2016/759 yn llunio rhestrau o drydydd gwledydd, rhannau o drydydd gwledydd a thiriogaethau lle mae Aelod-wladwriaethau i awdurdodi ar gyfer cyflwyno rhai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y bwriedir eu bwyta gan bobl, yn gosod gofynion tystysgrif
- Rheoliad (UE) 2016/1843 ar fesurau pontio ar gyfer cymhwyso Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 o ran achredu labordai swyddogol sy'n cynnal profion swyddogol ar gyfer Trichinella
- Rheoliad (UE) 2017/185 yn gosod mesurau pontio ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodol o Reoliadau (CE) Rhif 853/2004 a (CE) Rhif 854/2004 Rheoliad y Comisiwn (UE) 2017/185 yn gosod mesurau pontio ar gyfer cymhwyso darpariaethau penodol o Reoliadau (CE) Rhif 853/2004 a (CE) Rhif 854/2004
- Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion*
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2045
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2046

Yr unig ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sydd wedi'u marcio â * yw mân newidiadau mewn perthynas â'r diffiniad o 'awdurdod priodol' yng Ngogledd Iwerddon a/neu newidiadau i eiriad sy'n ymwneud â'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon. Nid yw'r diwygiadau hyn yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) hefyd yn diwygio cyfraith ddomestig yr UE mewn perthynas â Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond nid mewn perthynas â Chymru.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae'r OS yn gwneud mân gywiriadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ac nid yw'n trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Diben y diwygiadau
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r UE mewn cysylltiad â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid cyffredinol. Bydd y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol bach iawn i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau diogelu iechyd pobl neu i safon uchel y bwyd a'r bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl o gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Bydd y Rheoliadau'n gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill, dileu gofynion i ddarparu gwybodaeth ar wefan yr UE, a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae 20 darn o gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn cael eu diwygio i wneud mân newidiadau a newidiadau technegol yn unig er mwyn egluro'n glir pwy yw'r 'awdurdod priodol' yng Ngogledd Iwerddon a/neu addasu geiriad sy'n ymwneud â'r weithdrefn negyddol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae diwygiad technegol i Reoliad (UE) 2016/759 (ar fewnforio mathau penodol o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd) yn darparu bod yn rhaid i'r dystysgrif sy'n cyd-fynd â mewnforion penodol fod yn Saesneg / Cymraeg a Saesneg, neu gynnwys cyfieithiad ardystiedig. Ar hyn o bryd, y gofyniad yw bod y dystysgrif wedi'i llunio yn iaith swyddogol yr Aelod-wladwriaeth sy'n mewnforio'r cynnyrch.

Bydd yr OS hefyd yn gwneud mân newidiadau i ddau Benderfyniad yr UE (2018/2045 a 2018/2046) i sicrhau bod awdurdodiadau ar gyfer dau gynnyrch GM penodol yn parhau'n ddilys fel y gallant barhau i gael eu rhoi ar farchnad y DU ar ôl ymadael â'r UE.

Diwygir Rheoliadau (CE) 853/2004 ac 854/2004 i addasu ychydig ar y gofynion newydd ar gyfer cymhwyso marciau iechyd ac adnabod i garcasau a chynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid. Mae'r diwygiadau i'w gwneud gan Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 yn darparu bod yn rhaid i farciau iechyd ac adnabod arddangos 'United Kingdom' neu 'UK' i ddynodi tarddiad y cig ar ôl ymadael â'r UE. Bydd yr OS yn gwneud diwygiad pellach er mwyn caniatáu'r defnydd o 'GB' (y cod ISO ar gyfer y Deyrnas Unedig) a bydd cyfraith yr UE yn mynnu ei fod yn cael ei arddangos ar gig sy'n cael ei allforio o'r DU i'r UE ar ôl ymadael.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith bob diwygiad, yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/VDbicUyI

Pam rhoddwyd caniatâd
Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen.

Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.